Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

# Polisi Addysg - Cynllun Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol f2.0



DECHRAU

ATODIADAU

FERSIWN

Polisi Addysg - Cynllun Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol

| **Cymeradwywyd y Polisi gan** | **Dyddiad Cymeradwyo** | **Dyddiad Gweithredu** | **Perchennog y Polisi** | **Dyddiad Adolygu** |
|---|---|---|---|---|
| Cyngor Llawn | 31.03.11 | 31.03.11 | NE & JP | 25.04.14 |

Cyn cysylltu â'r Adran Adnoddau Dynol ynghylch cynnwys y polisi hwn, argymhellir i chi gyfeirio at y fersiwn diweddaraf ar y fewnrwyd a'r canllawiau perthnasol.
Fel pob dogfen ar y fewnrwyd, mae'r polisi yn amodol ar adolygiad rheolaidd oherwydd newidiadau deddfwriaeth a pholisi. Mae'r fersiynau diweddaraf o holl ddogfennau Adnoddau Dynol i'w gweld ar dudalennau Adnoddau Dynol.

| **Rhif y Fersiwn** | **Dyddiad Cymeradwyo** | **Cymeradwywyd gan** | **Diwygio** |
|---|---|---|---|
| f1.0 | 31.03.11 | Cyngor Llawn | Polisi Newydd |
| f2.0 | 25.04.18 | Andrea Malam | Ail-fformatio |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

# Dogfen Bolisi

## Teitl: Cynllun Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol i Staff mewn Ysgolion

## Datganiad Polisi

*Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cydnabod yr angen i gadw sgiliau a phrofiad gweithwyr hyn er budd y corff a chymdeithas yn gyffredinol. Mae Cyngor Sir Ddinbych felly yn ymroddedig i weithio gyda gweithwyr i hwyluso trefniadau ymddeol hyblyg a fydd yn diwallu anghenion yr unigolyn a'r gwasanaeth.*

**Cynnwys**

**1. Cyflwyniad**

**2. Nodau**

**3. Defnydd / Cwmpas**

**4. Ymgysylltu / Cyfranogi**

**5. Cyfeiriadau cyfreithiol**

**6. Manylion y Polisi**

6.1 Amodau'r Cynllun

6.1.1 Cymhwyster
6.1.2 Penderfyniadau
6.1.3 Dyddiad Rhyddhau
6.1.4 Adleoli

6.2 Budd-daliadau Taladwy

**7. Y Drefn**
7.1 Gwneud cais

7.2 Dethol
7.2.1 Meini Prawf Dethol

7.3 Hysbysiad

**8. Dogfennau cefnogi Atodiadau**

**Cyflwyniad**
Mae Cynllun Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol ar gyfer staff mewn ysgolion yng Nghyngor Sir Ddinbych yn gytundeb ar y cyd rhwng y Cyngor, yr ysgolion a'r undebau / cymdeithasau cydnabyddedig.

Mae'r ddogfen hon yn manylu amodau'r cynllun, meini prawf dethol, y broses o wneud cais a thelerau'r budd-daliadau sy'n daladwy i ymgeiswyr llwyddiannus.

Bydd penderfyniad ar bob cais yn cael ei gymryd gan y Corff Llywodraethol gyda chefnogaeth gan feini prawf priodol a thystiolaeth.

**Nodau**
Mae'r drefn hon yn anelu at ddarparu canllawiau cryno i Gyrff Llywodraethol, Penaethiaid, Rheolwyr Atebol a gweithwyr i ddelio ag Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol er mwyn sicrhau triniaeth deg a chyson i bob gweithiwr.

**Defnydd / Cwmpas y Polisi**
Mae'r cynllun yn berthnasol i:
- Holl staff parhaol a gyflogir yn ysgolion Cyngor Sir Ddinbych
- Holl staff dysgu a gyflogir yn ganolog

**Ymgysylltu / Cyfranogi / Ymgynghori**
Mae'r drefn hon wedi ei chreu ar ôl ymgynghori â'r undebau / cymdeithasau cydnabyddedig ar gyfer staff dysgu a staff arall i sicrhau bod yr holl weithwyr y mae'r drefn yn berthnasol iddynt, yn cael eu trin mewn dull teg a chyfartal.

**Cyfeiriadau Cyfreithiol ac Eraill**
Mae'r polisi yn cydymffurfio â'r amodau lleiaf statudol a nodir yn y Ddeddf Hawliau Dynol 1998 ac ar ôl ystyried y ddeddfwriaeth ganlynol:-

- Deddf Cyflogaeth 2002
- Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996
- Deddf Cydraddoldeb 2010

Ni fydd unrhyw weithiwr yn cael ei drin yn llai ffafriol oherwydd rhyw, hil, tarddiad ethnig neu genedlaethol, crefydd neu gred, anabledd, tueddfryd rhywiol, statws priodasol, oedran neu iaith. Ni fydd yna 'chwaith unrhyw gamwahaniaethu yn eu herbyn ac ni chânt eu haflonyddu neu eu fictimeiddio oherwydd eu cais dan y polisi hwn.

**Manylion y Polisi**

**6.1 Amodau'r Cynllun**

**6.1.1 Cymhwyster:**

- Rhaid i ymgeiswyr fodloni'r meini prawf cymhwyster canlynol:

- Bod â swydd barhaol gyda Chyngor Sir Ddinbych ar ddyddiad arfaethedig yr ymddeoliad

- Bod yn gymwys i dderbyn budd-daliadau pensiwn yn unol ag amodau a thelerau cynllun Pensiwn Athrawon a Llywodraeth Leol

- Bod o dan oed pensiwn arferol ac yn 55 oed neu drosodd ac wedi cyrraedd yr oedran hwn ar neu cyn y dyddiad ymddeol arfaethedig

**6.1.2 Penderfyniadau**

Penderfyniad Corff Llywodraethol yr Ysgol fel deiliad y gyllideb fydd y penderfyniad i gynnig Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol i ymgeiswyr. Fodd bynnag, bydd cyfle i drafod ac ymgynghori trwy gyfrwng fforymau ymgynghorol.

Penderfyniad Corff Llywodraethol yr ysgol berthnasol / Pennaeth Gwasanaeth fydd rhyddhau unigolion dan delerau'r cynllun.

**6.1.3 Dyddiad Rhyddhau**

Yn unol â darpariaethau'r cynllun ymddeol yn gynnar, bydd tri dyddiad perthnasol fel rheol mewn unrhyw flwyddyn pan gaiff staff wneud cais am ymddeoliad cynnar gwirfoddol:

- 31ain Awst
- 31ain Rhagfyr
- 30ain Ebrill

Y dyddiad cyntaf pan gaiff ymgeiswyr eu rhyddhau dan delerau'r cynllun hwn fydd 31ain Rhagfyr yn y flwyddyn academaidd pan wneir y cais.

Nid oes unrhyw warant y bydd y dyddiad rhyddhau dan y cynllun yr un â'r dyddiad y gofynnwyd amdano.

**6.1.4 Adleoli:**

Ni fydd ymgeiswyr llwyddiannus yn gymwys i wneud cais am gytundeb dysgu cyfnod penodol / dros dro gyda Chyngor Sir Ddinbych ar ôl ymddeol o'r Cyngor dan y Cynllun Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol.

Nodyn:
Efallai yr hoffai gweithwyr sy'n dymuno cymryd rhan o'u pensiwn a pharhau i weithio ystyried yr opsiwn 'Ymddeoliad Graddol' sydd ar gael dan Gynllun Pensiwn Athrawon neu Lywodraethol Leol. Am wybodaeth bellach, cysylltwch ag Adnoddau Dynol yn uniongyrchol.

Caiff ymgeiswyr llwyddiannus gofrestru ar Gofrestr Athrawon Llanw Cyngor Sir Ddinbych.

**6.2 Budd-daliadau taladwy**

Bydd y budd-daliadau sy'n daladwy i ymgeiswyr llwyddiannus yn unol ag amodau a thelerau perthnasol Cynllun Pensiwn Athrawon (TPS) a Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS).

Bydd rhyddhad dan y cynllun Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol yn digwydd heb flynyddoedd ychwanegol.

Efallai yr hoffai gweithwyr sy'n ystyried gwneud cais am ymddeoliad cynnar gwirfoddol ofyn am amcanestyniad o'u budd-daliadau pensiwn cyn gwneud y cais. Am wybodaeth ar sut i gael yr wybodaeth hon, cysylltwch ag Adnoddau Dynol.

**7. Y Drefn**

**7.1 Gwneud Cais**

Rhaid i ymgeiswyr gwblhau ffurflen gais (atodiad 1) a'i chyflwyno i Gadeirydd y Llywodraethwyr / Bennaeth Gwasanaeth erbyn dyddiad i'w gytuno. Rhaid cefnogi'r cais gan y Pennaeth / Rheolwr Atebol ac yn achos Pennaeth Ysgol, gan y Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant.

Rhaid i staff a gyflogir mewn ysgol gyflwyno copi o'r ffurflen gais i'r Pennaeth / Gadeirydd y Corff Llywodraethol hefyd.

Rhaid i staff a gyflogir yn ganolog gan yr Awdurdod Addysg Lleol gyflwyno copi o'r ffurflen cais i'r Rheolwr Atebol perthnasol a chael eu cefnogaeth hwy.

Rhaid cael holl ddyfynbrisiau i bob ymgeisydd trwy'r Partner Busnes Adnoddau Dynol ar gyfer y gwasanaeth. Bydd hyn yn cynnwys costau cyfalafu.

Mae gofyn i Gadeirydd y Corff Llywodraethol / Reolwr Atebol gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Staff / Bennaeth Gwasanaeth, yn manylu sefyllfa'r ysgol o ran pob cais. Bydd y sylwadau yn cael eu hystyried gyda'r ffurflen gais.

Bydd pob ymgeisydd yn derbyn cadarnhad ysgrifenedig bod eu cais wedi ei dderbyn, gan Gadeirydd y Corff Llywodraethol neu'r Pennaeth Gwasanaeth.

Bydd y llythyr yn rhoi cyfle i ymgeiswyr dynnu eu cais yn ôl erbyn dyddiad penodol cyn cymerir unrhyw benderfyniadau terfynol gan yr uchod.

### 7.2 Y Broses Ddethol

Bydd yr holl geisiadau yn cael eu hystyried gan y Corff Llywodraethol / Bennaeth Gwasanaeth fel y manylir.

Bydd sefyllfa gyllidebol gwasanaeth yn penderfynu ar lefel y cyllid sydd ar gael i ariannu penderfyniadau Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol. Yn achos ysgol, bydd argymhelliad yn cael ei wneud i'r Pwyllgor Staff ar ôl cael cyngor gan Wasanaethau Cyllid ac Adnoddau Dynol yr Awdurdod Addysg Lleol a Phwyllgor Cyllid a Phennaeth yr Ysgol.

Yn ystod y broses ddethol, bydd y Corff Llywodraethol / Bennaeth Gwasanaeth yn ystyried y canlynol:

- Cyllid yr ysgol / wasanaeth, wedi ei archwilio
- Copïau o'r ffurflenni cais
- Adroddiadau gan y Pwyllgor Staff / Rheolwr Atebol perthnasol yn amlinellu sefyllfa'r ysgol / wasanaeth mewn perthynas â phob cais. Mae hyn yn cynnwys yr effaith y byddai rhoi Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol i'r ymgeisydd yn ei chael ar faterion megis gostwng niferoedd staff neu arbedion, neu oblygiadau deddfwriaeth cyflogaeth. Mae'n hanfodol gofyn am gyngor gan Wasanaethau Cyllid ac Adnoddau Dynol Cyngor Sir Ddinbych.

#### 7.2.1 Meini Prawf Dethol

Bydd y Corff Llywodraethol / Bennaeth Gwasanaeth yn ystyried y meini prawf canlynol wrth ystyried pob cais. Dylid nodi nad yw'r meini prawf wedi eu rhestru mewn unrhyw drefn blaenoriaeth.

- Gallu arwain yn yr ysgol / wasanaeth

- Anghenion Cwricwlwm / Wasanaeth yr ysgol

- Cynllun Datblygu'r Ysgol / Gynllun Datblygu'r Gwasanaeth

- Rhaid cefnogi'r cais gan y Pennaeth / Bennaeth Gwasanaeth a rhaid cael cyngor Gwasanaethau Cyllid ac Adnoddau Dynol Cyngor Sir Ddinbych

- Gostwng nifer staff mewn ysgolion ac unrhyw oblygiadau adleoli / ddiswyddo

- Athrawon a effeithir gan ad-drefnu a/neu gau ysgol, a lle na ellir cael swyddi o statws cyfartal ar eu cyfer

- Effeithiolrwydd y gwasanaeth

Cost y cyflogwr o ran pob cais er mwyn medru ad-dalu'r costau mor effeithiol ag y bo modd, ac er budd llawn y gwasanaeth.

**7.3 Proses Hysbysu**

Ar ddiwedd cyfarfod penderfynu ar Ymddeoliad Cynnar Gairfoddol, bydd Cadeirydd y Corff Llywodraethol / Bennaeth Gwasanaeth yn hysbysu'r gweithiwr perthnasol / Reolwr Atebol / Ysgrifennydd Cangen Undeb o ganlyniad ceisiadau o'u hysgol / wasanaeth hwy.

Ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus, bydd gofyn i Gyrff Llywodraethol ysgolion / Benaethiaid Gwasanaeth hysbysu Adnoddau Dynol o'u cymeradwyaeth i ryddhau'r staff perthnasol.

Bydd pob ymgeisydd yn derbyn hysbysiad ysgrifenedig gan Adnoddau Dynol mewn perthynas â chanlyniad eu cais.

Os nad yw gweithiwr yn fodlon â phenderfyniad y Corff Llywodraethol / Bennaeth Gwasanaeth, mae ganddynt hawl i gychwyn trefn Gwynion yr Ysgol / y Cyngor.

Bydd y Pwyllgor Cyllid / Reolwr Cyllid Dysgu Gydol Oes yn cyflwyno adroddiad ar y penderfyniadau i Gorff Llywodraethu'r Ysgol / Bwyllgor Craffu Dysgu Gydol Oes er gwybodaeth.

## 8. Dogfennau Ategol

